**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/2313/21

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
Swyddfa.breifat@senedd.cymru

2 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr am Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru (y Memorandwm) ar gyfer y Bil Ardrethu (Coronafeirws) ac Anghymhwyso Cyfarwyddwyrr (Cwmnïau a Ddiddymwyd) (y Bil).

Hoffwn fynd i'r afael â'r materion yr ydych wedi'u codi wrth ystyried y Memorandwm.

Nid oedd cefndir y Bil wedi'i gynnwys yn y Memorandwm, sy'n canolbwyntio ar ddarpariaethau perthnasol yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. Cyflwynwyd y Bil ar 12 Mai heb drafodaeth ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid cynnwys darpariaethau ar gyfer Cymru wrth ei gyflwyno. Roedd y gwaith o ddatblygu'r Bil cyn ei gyflwyno hefyd yn digwydd yn ystod y cyfnod cyn etholiad y Senedd.

Yn dilyn yr etholiad, lluniwyd dull o ymdrin â'r Bil ac ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd ar 27 Gorffennaf yn gofyn am i ddarpariaethau perthnasol i Gymru gael eu cynnwys yn y Bil. Cefais ymateb ar 3 Medi gan y Gweinidog dros Dwf Rhanbarthol a Llywodraeth Leol ar y pryd yn cadarnhau y byddai darpariaethau perthnasol ar gyfer Cymru yn cael eu cyflwyno fel gwelliant yn y Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 9 Medi.

Rwy'n nodi eich sylwadau am y ddolen a ddarperir yn y memorandwm; dolen yw hon i'r dudalen ar y we sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i bob cam o'r Bil. Mae'r Bil fel y'i diwygiwyd sy'n cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i Gymru i'w weld yn:
https://bills.parliament.uk/publications/42504/documents/629

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran gwneud Rheoliadau perthnasol, brynhawn ddoe gosodais y *Rheoliadau Prisio ar gyfer Ardrethu (Cymru) (Coronafeirws) 2021.* Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 6pm neithiwr ac maent yn cael yr effaith o atal, o hyn ymlaen, apelau Newid Perthnasol mewn Amgylchiadau sy’n ceisio dibynnu ar faterion sy'n ymwneud â Covid-19. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ymgynghori ar y Rheoliadau hyn, a chynhaliwyd ymgynghoriad ar y rheoliadau drafft rhwng 16 Awst a 27 Medi: cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 21 Hydref.

Oherwydd cyfyngiadau amser, ni fu modd cynnwys cymal yn y Bil sy'n dirymu'r Rheoliadau hyn. Bwriadaf osod rheoliadau pellach i ddirymu'r Rheoliadau, a fydd yn cyd-fynd ag amseriad y Cydsyniad Brenhinol, pe bai'r Bil yn parhau i fynd rhagddo.

Rwyf yn anfon copi o’r ateb hwn at Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government